# DATBLYGU EICH BUSNES
## Mawrth – Mai 2017

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

### Statws RAG

■ Coch: Dan y targed ■ Oren: Bron â chyrraedd y targed ■ Gwyrdd: Ar y trywydd iawn

**Cyfanswm sydd wedi Cofrestru gyda Cyswllt Ffermio ers 1/10/205**



**7323** BUSNES a **14206** UNIGOLYN

### Gwasanaeth Cynghori ■

Mae Gwasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio yn darparu amrediad o gyngor cymorthdaledig, annibynnol a chyfrinachol ar gyfer:


- Busnesau Fferm a Choedwigaeth

Mae diweddariad i'r Gwasanaeth Cynghori wedi cael ei gadarnhau, lle na fydd cynllun busnes bellach yn un o'r gofynion i allu cael mynediad at gyngor technegol. Bydd angen i bartner busnes penodol cymwys fynychu digwyddiad Trosglwyddo Gwybodaeth Lot 1 lle bydd y thema'n gysylltiedig â phwysigrwydd cynllunio busnes a datblygiad busnes at y dyfodol er mwyn bod yn fwy cynaliadwy a gwydn. Y prif ddigwyddiadau sydd wedi cael eu trefnu yw'r Sioe Deithiol Ffermio ar gyfer y Dyfodol. Bydd digwyddiadau Trosglwyddo Gwybodaeth eraill yn cael eu trefnu dan y thema Cynllunio Busnes.


Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd modd cael mynediad at yr un categorïau technegol er mwyn i'r busnes:



WELLA EFFEITHLONRWYDD | DDOD YN FWY GWYDN | WELLA CYNALIADWYEDD





### Targed




*Mae targed blynyddol wedi cael ei osod gan Lywodraeth Cymru o 100 achos o gyngor bob blwyddyn. Mae'r uchod yn dangos targedau ar gyfer blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y rhaglen wedi'u cyfuno.

### Gwerthusiad Cwsmeriaid:

A yw arweiniad y cynghorydd wedi eich cynorthwyo i baratoi set glir o argymhellion?





### Cymorthfeydd un i un ■

Mae cymorthfeydd yn cynnig cyngor un i un gydag ymgynghorydd mewn lleoliadau penodol.

**Targed blynyddol = 60 Targedau a gyflawnwyd = 64**

**12 Adolygiad Busnes Digidol**
**2 Technegol Gwybodaeth**
**41 Cynllun Datblygu Personol**
**3 Olyniaeth**
**3 Marchnata ac Arallgyfeirio**
**3 Cynllunio**




### Cymhorthfa Gynllunio:

**Understand the planning process – well informed is well prepared**

Deall y broses gynllunio – gwybodaeth ddigonol i baratoi'n effeithiol

Deilliannau dysgu allweddol yn dilyn ymgynghoriad cyfrinachol gyda chynghorydd cynllunio annibynnol:

- Gwell dealltwriaeth o'r prosesau sy'n ymwneud â chaniatâd cynllunio (e.e. ar gyfer siediau neu adeiladau amaethyddol newydd, atgyweiriadau neu drawsnewidiadau neu fenter arallgyfeirio)
- Mwy o ymwybyddiaeth o'r polisïau perthnasol a'r ffactorau sy'n dylanwadu'r penderfyniad a oes angen caniatâd cynllunio neu beidio neu a fydd yn cael ei ganiatáu
- Mwy o ddealltwriaeth o faint o ddogfennau cefnogi sydd ei hangen fel rhan o'r broses Cynllun Datblygu Lleol

### Adborth y diwydiant:

**15 wedi mynychu**

**93%** WEDI NODI BOD Y GYMHORTHFA YN DDA IAWN NEU'N ARDDERCHOG

**100%** WEDI DYSGU RHYWBETH NEWYDD


**"Mae'r gymhorthfa gynllunio wedi fy nghynorthwyo i atgyfnerthu fy nealltwriaeth yn ymwneud â materion cynllunio."**

**"Roeddwn i'n meddwl bod y gymhorthfa yn addysgiadol iawn."**

### Clinigau ■

Clinigau un i un er mwyn derbyn cyngor ac arweiniad sy'n benodol i'r busnes.

**Targed blynyddol = 21**
**Targed a gyflawnwyd = 18**




### Clinigau Mastitis ac Ansawdd Llaeth

**2 Glinig**

Deilliannau'r Clinigau:

- Gallu creu Cynllun Gweithredu wedi'i anelu at wella triniaeth mastitis a dulliau rheoli (clinigol ac amgylcheddol)
- Lleihau Cyfrif Celloedd Somatig (SCC)
- Gwella lefelau lles cyffredinol anifeiliaid ar y fferm
- Lleihau lefelau Difa o ganlyniad i glefyd Mastitis

**"Roedd y clinig yma'n wych a does dim amheuaeth bod y milfeddyg ymgynghorol, James Breen, o ansawdd uchel iawn. Mae'r clinig wedi rhoi'r holl wybodaeth sydd arnaf ei angen er mwyn targedu fy ymdrechion i arwain gwelliannau yn y fuches."**

## Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol...

...Sioeau teithiol, digwyddiadau galw heibio a gweithdai penodol i'r sector.

**Targed blynyddol = 70** **Targed a gyflawnwyd = 29**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 14 Ffermio ar gyfer y Dyfodol | 4 Gweithdy cynllunio busnes | 4 Seminar moch yng Ngŵyl Wanwyn CAFC | 3 Ymwybyddiaeth iechyd coed | 3 Ansawdd dŵr | 1 Merched mewn amaeth |

### Digwyddiadau Ffermio ar gyfer y Dyfodol



Prif nod y digwyddiadau yma oedd i:

- Annog ffermwyr i ddechrau cynllunio ar gyfer eu dyfodol o ystyried y newidiadau gwleidyddol presennol a'r heriau economaidd a fydd yn effeithio ar y diwydiant
- Hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael fel rhan o Wasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio megis:
  - manteision cynllunio busnes effeithiol
  - manteision Cyngor Technegol megis cyngor ynglŷn â Maeth, Cynllunio Rheoli Maeth, cyngor ynglŷn ag Isadeiledd a chyngor Arallgyfeirio
- Hyrwyddo Mentoriaid ffermio a ffermwyr y Rhwydwaith Arddangos

**14** DIGWYDDIAD gyda **3747** YN MYNYCHU

### Adborth y diwydiant:

**92%** YN NODI BOD Y DIGWYDDIAD YN DDA NEU'N ARDDERCHOG

**86%** WEDI DYSGU RHYWBETH NEWYDD

> **"Rydw i wedi dysgu cymaint am bwysigrwydd cynllunio busnes a'r angen i wella fy nealltwriaeth fy hun ar draws sawl maes. Dylwn fod yn defnyddio llawer mwy o wasanaethau Cyswllt Ffermio. Mae'r digwyddiad hwn wedi gwneud i mi sylweddol bod mod di mi wneud llawer er mwyn paratoi ar gyfer yr her sydd i ddod."**

## Mesur i Reoli

Mae Mesur i Reoli yn broses lle bo un busnes yn defnyddio eu data perfformiad (ffisegol a/neu ariannol) i gymharu gyda busnes arall tebyg er mwyn canfod meysydd lle gellir gwella perfformiad. Mae adnodd Mesur i Reoli ar lein wedi cael ei ddatblygu ar gyfer ffermwyr Cig Coch a bydd hwn ar gael yn fuan.

## Grwpiau Trafod


Mae grwpiau trafod Cyswllt Ffermio yn galluogi busnesau i ddysgu gan ei gilydd, i drafod heriau, ystyried cyfleoedd ac o bosibl i ddarganfod ffyrdd newydd neu well o wneud pethau.

**72** GRŴP TRAFOD MEINCNODI GWEITHREDOL

**639** BUSNES

**756** AELOD UNIGOL

Grwpiau Trafod yn ôl Sector





**66** CYFARFOD gyda **523** YN MYNYCHU

### Grŵp trafod Garddwriaeth yng Ngogledd Cymru

Roedd y gr p tyfwyr wedi nodi dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer eu busnesau ac wedi mynd ati i sefydlu system monitro er mwyn lleihau gwastraff cnydau, lleihau'r straen gan blâu a chlefydau, ac i sicrhau'r cynnyrch gorau posibl i gyfateb i'r tueddiadau yn y galw lleol am gynnyrch ffres.



Eu cynllun dros y 2 neu 3 cyfarfod nesaf yw canolbwyntio mwy ar ganfod gwell ffyrdd o reoli chwyn ac i leihau'r perygl bod plâu ac afiechydon yn effeithio ar eu cnydau, a hynny yn yr awyr agored a dan do.




## Gwefan a Chyfryngau Cymdeithasol Cyswllt Ffermio

| | |
|---|---|
| Nifer yr ymweliadau tudalen unigryw (Mawrth – Mai 2017) | 49,024 |
| Cyfartaledd yr amser a dreulir ar y wefan | 00:01:33 |
| Nifer y dilynwyr ar Twitter (31.05.2017) | 3,287 |
| Nifer o hoffwyr ar Facebook (31.05.2017) | 5,411 |